

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â David Jones (Henllan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei ferch, Mair Morris, oedd yn byw ym Mhenygroes. Cyflwynwn y teulu oll i ofal Duw a gweddiwn y byddant yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.
- Cofiwn hefyd am y cleifion yn ein plith. Mae Trefor Jones (Nantglyn) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari fel ag y mae Elizabeth Jones (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae'n dda cael adrodd bod Eirian Davies (Cefn Meiriadog), Glyn Davies (Saron) a Gwenfyl Lloyd (Peniel) wedi cael dod adre o'r ysbyty yn ystod yr wythnos. Cofiwn amdanynt ac am eu teuluoedd yn ein gweddiâu. Mae eraill wedi cael amrywiol driniaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Anfonwn ein dymuniadau gorau i bob un ohonynt a gweddiwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu hangen.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Maldwyn Jones (Plas Eleri); Mr R. J. Davies (Coed Isaf); Mr Selwyn Davies, Mrs Menna Owen, a Miss W. J. Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy) a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.
- Llongyfarchiadau calonnog i Arthur Williams (Cefn Meiriadog) a Helen ar eu priodas yr wythnos hon. Dymunwn fendith Duw ar y ddau. Yn yr un modd, anfonwn ein cyfarchion at Dewi a Mair Owen (Peniel) sydd newydd ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau i chithau!

## I ddod

- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH HENLLAN**, dydd Llun, Hydref 13eg. Bydd plant Ysgol Henllan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn am 2.00 a'r Parch John Owen yn rhoi sgwrs i'r plant, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 7.00, ceir pregeth gan y Parch John Owen.
- **NOSWEITHIAU ARDDANGOS A HYRWYDDO GWERSLYFRAU AC ADNODDAU CRISTNOGOL A CHYFLWYNIAD AR FATERION GOFAL A DIOGELWCH** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan, nos Lun, Hydref 13eg rhwng 7 a 9 o'r gloch.
- **CYMDEITHAS CHWIORYDD BRO ALED** yn cyfarfod yng Nghapel y Groes nos Fawrth, Hydref 14eg am 7.30 pryd y ceir sgwrs a chàn gan y Parch. Tecwyn Ifan.
- **GŴYL DDIOLCHGARWCH LLANEFYDD** – Dydd Mercher, Hydref 15fed. Gwasanaeth gan blant yr ysgol yn y capel am 10.30 a phregeth gan y Parch. Huw John Hughes am 7.00.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH CAPEL CEFN MEIRIADOG** nos Iau, Hydref 16eg am 7.00 gyda'r Parch. Robert Parry, Wreccsam yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5<sup>ed</sup> Hydref 2014

## Darlleniad y Dydd

1 Pedr 3: 13-18

(BCND tud.257 / BCN: tud.236)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i'r oedfaon ac i'r cyfle newydd a gawn i addoli Duw hefo'n gilydd lle bynnag yr ydym. Byddwn yn cofio am y rhai na fedrant ddod i'r oedfaon yn ein gweddiâu heddiw eto – rydych, pob un yn ein gweddiâu a gweddiwn y byddwch yn derbyn bendith arbennig oddi wrth ein Harglwydd ac yn cael eich cynnal ganddo. Ein bod i gyd yn profi Duw yn agos yn llawnder ei nerth a'i heddwch – dyna yw ein dyhead a'n gweddi.

Mae heddiw yn ddiwrnod pwysig iawn i Gymdeithas y Beibl yng Nghymru ac ar draws y byd. Bydd gwasanaeth arbennig yn cael ei gynnal y prynhawn yma yn Eglwys Llanycil pryd y bydd y Gymdeithas yn diolch i Dduw am y ganolfan newydd sydd wedi cael ei chreu yno i ddathlu'r Beibl a'i hanes. "Beibl i bawb o bobl y byd" yw nod y Gymdeithas o hyd a bydd hanes dylanwad y Beibl ar y byd yn cael ei hyrwyddo yn y ganolfan newydd. Enw'r ganolfan ydi 'Byd Mary Jones' a bydd hanes y ferch dlawd honno a'i chyfarfyddiad hefo'r Parch. Thomas Charles yn sbarduno llawer gobeithio i weld cyfoeth gras Duw yn ei rodd o Feibl i ni'r Cymry fel nifer fawr o bobloedd eraill yn y byd. Roedd Mary a'i thebyg wedi gweld gwerth y Gair oherwydd mai trwyddo y down i adnabod Duw yng Nghrist ac ynddo y gwelwn holl addewidion Duw sy'n sail i'n gobaith. Diolchwn i Dduw gyda'r Gymdeithas felly am yr hyn a gafwyd ac am y gwaith sy'n parhau ar draws y byd.

Mae'r darlleniad heddiw yn gorchymyn i ni fod yn barod i roi rheswm dros y gobaith sydd ynom. Ystyr hynny ydi'n bod yn gallu dweud wrth eraill pam ein bod yn credu yng Nghrist a pham fod y gobaith o'i weld 'fel y mae' mor bwysig i ni. Tila iawn ydi'n hymateb ni i'r gorchymyn hwn heb ein bod yn adnabod ein Beibl. Yn y Beibl – a'r Beibl yn unig o holl ysgrifau'r byd – ac yng ngoleuni Ysbryd Duw y cawn ddatguddiad o Iesu fel yr un sy'n dangos Duw i ni ac fel un sy'n cyflawni holl addewidion a bwriadau Duw o'n plaid ni. Iesu ydi sail a gwrthrych ein gobaith. Ond sut y medrwn obeithio'n iawn – a rhoi rheswm am ein gobaith i eraill – os nad ydym yn gyfarwydd hefo'r Beibl? Dyna pam y mae'n faint i ni nid yn unig ddathlu hefo'r Feibl Gymdeithas ond hefyd afael yn ein Beiblau, ei ddarllen a myfyrio ynddo. Gwyn ein byd! Darllenodd Mary Jones y Beibl drwyddo bedair gwaith o leiaf yn ystod ei bywyd a bu hyn yn gysur mawr iddi yn ystod ei dallineb ddiweddedd ei hoes. Beth am i ni ddilyn ei hesiampl yn llawen! Fe fydd gennym sail well wedyn i roi rheswm llawn am y gobaith sydd ynom yn Iesu.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Daniel 6: 16-23 (BCND tud.810 / BCN: tud.738)

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth** yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.00. Y siaradwraig fydd Mary Thomas, Llanuwchllyn. Croeso cynnes i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 a bydd paned i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 1.15.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Guto a Bethan Davies yn cyflwyno Evan Clement i'w fedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg a chynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Gwasanaeth Diolchgarwch plant Ysgol Bro Aled yn Eglwys Sant Sannan am 2.00. Croeso i bawb.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Bydd **Pwyllgor Cymdeithas y Beibl** yn ymgynnull yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees am 7.15.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Gwener Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch ym Mheniel am 7.00 gyda'r Parch William Davies, Y Bala yn pregethu. Croeso i bawb.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Saron am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn gweinyddu'r cymun ac yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 2.00.

### Detholiadau

Os hoffech gael copi o  
Raglen Cymanfaoedd Canu 2014-2015  
(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),  
rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul  
**ERBYN DYDD SUL, HYDREF 12<sup>fed</sup>**  
os gwelwch yn dda. Pris: £1.35  
(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r  
wythnos ganlynol, os gwelwch yn dda?)



### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau  
i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau